# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 02 Awst 2006

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn etholaeth Llanelli ers 2003. (WAQ47654)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn etholaeth Llanelli ers 2003. (WAQ47653)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes yn etholaeth Llanelli ers 2003. (WAQ47651)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o blant sydd wedi cymryd rhan mewn cynlluniau Cychwyn Cadarn ym mhob etholaeth yng Nghymru ers cyflwyno'r cynllun. (WAQ47658)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad a wnaed gan y Gweinidog o effaith y cynllun Cychwyn Cadarn ar blant yn wardiau Gorllewin a De-orllewin y Rhyl, gan gyfeirio'n benodol at gyrhaeddiad addysgol. (WAQ47657)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o blant yn (a) etholaeth Dyffryn Clwyd a (b) Sir Ddinbych (i) sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a (ii) sy'n hawlio prydau ysgol am ddim, a hynny fel canran o'r holl blant o oed ysgol. (WAQ47656)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y pwerau sydd gan lywodraeth leol i atal cwn rhag mynd ar gaeau chwarae cyhoeddus, a hynny er mwyn atal cwn rhag baeddu caeau o'r fath. (WAQ47647)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog yn eu darparu i

awdurdodau cynllunio ar faint ystafelloedd gwely. (WAQ47655)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa dystiolaeth y mae'r Gweinidog wedi'i hystyried sy'n dangos bod nifer fawr o achosion o TB buchol mewn gwartheg yn yr ardaloedd hynny lle y nodwyd bod nifer fawr o achosion o TB buchol mewn bywyd gwyllt. (WAQ47662)

**Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar ddatblygiad cynllun iawndal o ran halogiad GM. (WAQ47661)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o gyllid a roddwyd i bob awdurdod lleol y pen yn y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol, a hynny bob blwyddyn ers 1999. (WAQ47660)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth oedd y gymhareb cynghorydd i etholwr yn y 100 (a) ward cyfoethocaf a (b) ward tlotaf yng Nghymru, a hynny ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer. (WAQ47659)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro pa ganllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol ynghylch codi tâl am ofal seibiant, ac a wnaiff roi manylion yr amrywiad o ran costau ar gyfer pob awdurdod. (WAQ47648)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y ffordd y mae'n sicrhau bod practisau orthodontig yn cael cyllid digonol i ateb y galw, a'r ffordd y mae'n monitro'r sefyllfa. (WAQ47649)

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn etholaeth Llanelli ers 2003. (WAQ47652)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn etholaeth Llanelli ers 2003. (WAQ47650)